

Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 25 Mai 2021

Aelod/Swyddog Arweiniol Y Cyngorydd Tony Thomas / David Lorey

Awdur yr Adroddiad Glyn Forsdick

Teitl Fframwaith Arbed Ynni a Gorchuddio Allanol ar gyfer Tai
Cyngor

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ceisio cymeradwyaeth i fynd ymlaen i dendro'r fframwaith gwella Tai nesaf er mwyn caffael y gwasanaethau angenrheidiol i ddarparu atgyweiriadau allanol mawr i stoc dai'r cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad i symud ymlaen â thendro ar gyfer fframwaith 4 mlynedd sydd ei angen i gaffael contractwyr gorchuddio allanol i gynnal cyflwr stoc dai y cyngor yn unol â Rhaglen Ansawdd Tai Cymru (Gweler Atodiad 1 sy'n darparu manylion dwy flynedd gyntaf y rhaglen lle mae arolygon wedi eu cyflawni).

3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhelliad yw cymeradwyo'r defnydd o fframwaith i ddarparu'r gwelliannau angenrheidiol yn unol â chynllun busnes y stoc dai.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Mae Tai Sir Ddinbych yn berchen ar ac yn rheoli 3400 o dai cyngor. Ers 2004 mae gwaith atgyweirio sylweddol wedi ei wneud i'r stoc dai er mwyn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae'r buddsoddiad wedi bod yn sylweddol, fodd bynnag mae'r buddion i'n tenantiaid ac i gyflwr cyffredinol a diogelwch ein tai wedi bod yn sylweddol hefyd.

- 4.2. Rhaid i ni nawr sicrhau fod y stoc dai yn dal i gydymffurfio â safon gyfredol Safon Ansawdd Tai Cymru a'r safon diwygiedig a ddisgwylir yn nes ymlaen yn 2021.
- 4.3. Dros y 3 blynedd ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ar ddarparu gwelliannau allanol i'r stoc ar ôl cwblhau'r rhaglen atgyweirio fewnol ddiwethaf yn 2018. Bydd y rhaglen gyfredol yn dod i ben ym mis Mai 2021 a'n bwriad yw symud ymlaen gyda'r rhaglen gyfalaf nesaf sydd wedi ei chynllunio yn ystod hydref 2021. Mae'r rhaglen gyfredol wedi cyflawni gwelliannau allanol sylweddol i dros 350 o eiddo yn y stoc, gan gynnwys toeon newydd, rendr newydd, deunyddiau newydd ar ymylon y to, a gwelliannau amgylcheddol.
- 4.4. Yn y fframwaith gwaith cyfalaf nesaf sydd wedi ei gynllunio bydd gwelliannau tebyg yn cael eu gwneud i rannau eraill y stoc dai lle mae angen buddsoddiad erbyn hyn. Bydd gwaith yn cynnwys beth sydd eisoes wedi ei nodi yn ogystal â mwy o fesurau arbed ynni i sicrhau fod targedau datgarboneiddio corfforaethol a Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni lle bydd hynny'n ariannol hyfyw.
- 4.5. Yn ddiweddar rydym wedi treialu ffyrdd newydd o weithio a systemau arloesol ar ein eiddo sydd wedi eu gwella yn fwyaf diweddar, a hynny gyda chymorth rhaglen Grant Ôl-Osod Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn darparu gwelliannau arbed ynni i 55 cartref fel rhan o'r rhaglen gorchuddio allanol gyfredol.
- 4.6. Mae'r gwelliannau wedi cynnwys PV solar integredig, gwell inswleiddiad waliau drwy inswleiddio waliau allanol (EWI) a gosod technoleg batris i harneisio ynni solar.
- 4.7. Fel rhan o'r gwaith hefyd rydym wedi gosod cyfarpar monitro ynni yn ein cartrefi er mwyn ein galluogi i adrodd am fuddion y gwaith ôl-osod ac i olrhain gwelliannau cyn ac ar ôl y gwaith gwella. Rydyn ni'n un o ychydig yn unig o awdurdodau lleol sy'n treialu'r dechnoleg hon ar gyfer Llywodraeth Cymru, sef Systemau Ynni Deallus (IES). Rydym wedi sicrhau cyllid i osod y cyfarpar yma ar ein rhaglen nesaf o waith sydd i fod i ddechrau yn yr hydref.
- 4.8. Y llwybr cyflawni arfaethedig ar gyfer y gwelliannau uchod yw drwy fframwaith pedair blynedd a fydd yn ymgorffori sawl lot yn nhrefn blaenoriaeth buddsoddiad eiddo. Mae'r fanyleb wedi ei dylunio er mwyn caniatáu ar gyfer gwaith gorchuddio

allanol safonol yn ogystal â mesurau ynni ôl-osod pe bydd grantiau yn y dyfodol yn caniatáu hynny.

4.9. Mae ein fframwaith a ddaeth i ben yn ddiweddar wedi cyflawni pedair rhaglen lwyddiannus o waith, wedi dileu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chontractau unigol mwy o faint sy'n rhedeg dros sawl blwyddyn, yn ogystal â denu cystadleuaeth, sydd wedi lleihau costau. Bydd y fframwaith newydd hefyd yn cyflawni cyfraniad ar ffurf mantais gymunedol sylweddol i'r economi leol ac yn cynnwys cyfleoedd prentisiaethau a hyfforddi o fewn pob lot.

4.10. Bydd darparu'r fframwaith hefyd yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa strategol dda i gymryd mantais o unrhyw gyfleoedd grant pellach gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys y rownd nesaf o gyllid ôl-osod, gan y bydd gennym bartneriaid fframwaith yn eu lle i gyflawni cynllun o'r fath sydd wedi eu hyfforddi'n llawn ac wedi arfer ag ôl-osod mesurau arbed ynni.

4.11. Bydd ymgorffori gwaith arbed ynni i'r fframwaith fel rhan o'r rhaglen gorchuddio allanol hefyd yn cynhyrchu cynnydd sylweddol o ran ein data Tystysgrif Perfformiad Ynni. Mae mynegiannau cynnar o'n rhaglen gyfredol wedi cadarnhau ein bod wedi cynyddu'r cartrefi hynny o Dystysgrif Perfformiad Ynni D i Dystysgrif Perfformiad B drwy fabwysiadu technegau wedi eu ôl-osod.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyflawni gwaith atgyweirio mawr yn cyfrannu'n sylweddol at gynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai y cyngor gan fod gwaith y cynllun cyfalaf wedi ei gynllunio i sicrhau fod pob eiddo yn cyflawni Tystysgrif Perfformiad Ynni o C o leiaf, yn unol â'r targed corfforaethol cyfredol.

6.2 Mae darparu gwaith atgyweirio sylweddol hefyd yn cyfrannu at y flaenoriaeth Dai lle mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn tai sydd yn diwallu eu anghenion.

Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cost y fframwaith fydd oddeutu £10 miliwn yn ddibynnol ar y lefel o waith sydd ei angen ar gyfer pob lot perthnasol. Mae'r ddau lot cyntaf wedi eu harolygu ac

amcangyfrifir mai gwerth y gwaith yw oddeutu £2.5 miliwn fesul lot. Bydd y ddarpariaeth adnoddau gyfredol yn ddigon i gyflawni'r rhaglen, fodd bynnag mae'n bosib y bydd angen adnoddau pellach pe bai'r cyngor yn llwyddo i dderbyn cyllid ôl-osod Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Ni fydd y gwaith yn cael effaith negyddol uniongyrchol ar unrhyw wasanaethau eraill o fewn i'r cyngor.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Gweler yr atodiad am yr adroddiad:

Prif gasgliadau: Gostyngiad carbon i'r stoc dai, mwy o gyfleoedd gwaith, mwy o gyfleoedd hyfforddi, buddion i fusnesau bach a chanolig a'r gadwyn gyflenwi leol, datblygiad sgiliau, ymgysylltu â thenantiaid, ac Ymgysylltu â'r Gymuned.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Mae angen eglur a gofyniad i sicrhau fod stoc dai y cyngor yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel ac er nad ystyriwyd ymgynghoriad craffu ar hyn o bryd, mae cryn drafodaethau wedi digwydd gyda Llywodraeth Cymru a thenantiaid ynglŷn â'n rhaglen arfaethedig o waith. Ymgynghorir hefyd gyda'r cynghorwyr perthnasol ym mhob ward cychwyn dechrau'r gwaith gwella ac mae gwybodaeth ystadegol yn cael ei fwydo yn ôl yn gorfforaethol ac at Lywodraeth Cymru yn rheolaidd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd yr argymhelliad i fwrw ymlaen i dendro fframwaith 4 mlynedd ar gyfer contractau gorchuddio allanol o gymorth i sicrhau y gallwn gynnal cyflwr stoc dai'r cyngor yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru wrth symud ymlaen. Mae'r gwariant arfaethedig wedi ei gynnwys yng Nghynllun Busnes y Stoc Dai ac mewn cynlluniau gwario cyfredol a chynlluniau gwario ar gyfer y dyfodol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risgiau canlynol wedi eu nodi a byddant yn cael eu rheoli gan Dîm Rheoli'r Fframwaith:

- Her gyfreithiol o safbwynt y broses gaffael – rheolir drwy fewnbynnu cyngor prisiau a chyngor cyfreithiol arbenigol o safbwynt y broses ac ysgrifennu'r ddogfennaeth angenrheidiol.
- Perfformiad y contractwr yn wael – bydd monitro dangosyddion perfformiad allweddol yn rheolaidd yn ystod y contract yn sicrhau fod sancsiynau ar gael i'r Cyngor allu mynd i'r afael â pherfformiad gwael (gweler Atodiad 2 sy'n nodi enghreifftiau posib o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y fframwaith hwn).
- Contractwyr yn tynnu allan o'r Fframwaith / yn cael eu diddymu – dylai gweddill y contractwyr ar y Lot berthnasol allu rheoli'r llwyth gwaith yn y tymor byr hyd nes bydd contractwr arall yn cael ei benodi.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r pŵer i wneud y penderfyniad wedi ei gynnwys yn A2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, A111 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rheoliad 33 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.